OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 Rhif 275 (Cy.11)

# AMAETHYDDIAETH, CYMRU

## Rheoliadau Llaeth Ysgol (Cymru) 2001

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud - -* | *30 Ionawr 2001* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Chwefror 2001* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan ei fod wedi'i ddynod(**1**)) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) mewn perthynas â pholisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan yr adran 2(2) a enwyd, drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:—

### Teitl, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Teitl y Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Llaeth Ysgol (Cymru) 2001 a deuant i rym ar 1 Chwefror 2001.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

### Dehongli

**2.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn, oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall —

mae i "addysg feithrin" yr ystyr a roddir i "*nursery education*" gan adran 117 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**3**);

mae i "addysg gynradd" yr ystyr a roddir i "*primary education*" gan adran 2(1) o Ddeddf Addysg 1996 (**4**));

ystyr "y Bwrdd" ("*the Board*") yw'r Bwrdd Ymyrraeth ar gyfer Cynhyrchion Amaethyddol a sefydlwyd o dan adran 6(1) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972;

ystyr "ceisydd" ("*claimant*") yw sefydliad addysgol cymwys neu awdurdod addysg lleol neu unrhyw gorff arall sy'n gwneud cais am gymorth Cymunedol neu gymorth gwladol mewn perthynas â chynhyrchion llaeth cymwys ar ran sefydliad addysgol cymwys;

ystyr "cost cyflenwi" ("*cost of supply*") mewn perthynas â chynhyrchion llaeth cymwys yw cost eu prynu plws swm y mae'n rhesymol i'r Cynulliad ystyried ei fod yn ddigonol i dalu costau caffael a gweinyddu cyflenwi'r cynhyrchion llaeth hynny;

(**1**) Yn rhinwedd Gorchymyn y Cymunedau Ewropeaidd (Dynodi) (Rhif 3) (O.S. 1999/2788).
(**2**) 1972 p.68.
(**3**) 1998 p.31.
(**4**) 1996.p.56

ystyr "y costau gweddilliol" ("*the residual costs*" ) yw'r costau cyflenwi, a dynnir gan brynwr mewn cysylltiad â chyflenwi cynhyrchion llaeth cymwys i sefydliad addysgol cymwys, llai unrhyw gymorth Cymunedol a chymorth gwladol a gyfrifir drwy gyfeirio at reoliad 4(2)(d) a all gael ei roi mewn perthynas â'r cyflenwi hwnnw;

mae i "cyfnod allweddol 2" yr ystyr a roddir i "*key stage 2*" gan adran 355 o Ddeddf Addysg 1996;

ystyr "cymorth Cymunedol" ("*Community aid*") yw cymorth y Gymuned Ewropeaidd sy'n cael ei roi yn unol ag Erthygl 14 o Reoliad y Cyngor;

ystyr "cymorth gwladol" ("*national aid*") yw cymorth a roddir gan y Cynulliad Cenedlaethol o dan y Rheoliadau hyn yn unol ag Erthygl 14(2) o Reoliad y Cyngor;

ystyr "cynhyrchion llaeth cymwys" ("*qualifying milk products*") yw'r llaeth a'r cynhyrchion llaeth a restrir yn yr Atodiad i Reoliad y Comisiwn fel cynhyrchion sy'n gymwys ar gyfer cymorth Cymunedol;

ystyr "cynllun cymhorthdal y Gymuned Ewropeaidd" ("*the European Community subsidy scheme*" ) yw cynllun y Gymuned Ewropeaidd ar gyfer cyflenwi llaeth a chynhyrchion llaeth cymorthdaledig i ddisgyblion sy'n mynychu sefydliadau addysgol fel y mae wedi'i sefydlu gan Reoliad y Cyngor a Rheoliad y Comisiwn ac yn cael ei weinyddu ym Mhrydain Fawr gan y Bwrdd;

ystyr "y Cynulliad Cenedlaethol" ("*the National Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr "disgyblion cymwys" ("*eligible pupils*") yw disgyblion sy'n derbyn addysg gynradd heblaw'r rhai sydd yng nghyfnod allweddol 2 neu'r rhai sy'n derbyn addysg feithrin;

ystyr "yr hyn sy'n gyfwerth â llaeth" ("*milk equivalent*") yw'r swm a bennir yn Erthygl 5(2) o Reoliad y Comisiwn fel swm sy'n cynrychioli'r cynnwys sy'n gyfwerth â llaeth mewn cynhyrchion llaeth penodol;

ystyr "y rheolau Cymunedol" ("*the Community rules*") yw'r rheolau a bennir gan Reoliad y Cyngor a Rheoliad y Comisiwn ynghylch darparu llaeth a chynhyrchion llaeth cymorthdaledig i ddisgyblion sy'n mynychu sefydliadau addysgol;

ystyr "Rheoliad y Comisiwn" ("*the Commission Regulation*" ) yw Rheoliad y Comisiwn (EC) 2707/2000 sy'n nodi rheolau manwl ar gyfer cymhwyso Rheoliad y Cyngor (EC) 1255/1999 mewn perthynas â chymorth Cymunedol ar gyfer cyflenwi llaeth a chynhyrchion llaeth penodol i ddisgyblion mewn sefydliadau addysgol(**5**);

ystyr "Rheoliad y Cyngor" ("*the Council Regulation*") yw Rheoliad y Cyngor (EC) 1255/1999 ar gyd-drefnu'r farchnad mewn llaeth a chynhyrchion llaeth(**6**); ac

ystyr "sefydliad addysgol cymwys" ("*qualifying educational establishment*") yw sefydliad sy'n darparu addysg gynradd ac sydd wedi'i gofrestru, naill ai'n uniongyrchol neu drwy ei awdurdod addysg lleol neu gorff arall, gyda'r Bwrdd, er mwyn cymryd rhan yng nghynllun cymhorthdal y Gymuned Ewropeaidd.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at offeryn Cymunedol yn gyfeiriad at yr offeryn hwnnw fel y'i diwygiwyd ar y dyddiad y gwneir y Rheoliadau hyn.

(3) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at reoliad â rhif yn gyfeiriad at y rheoliad sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Rheoliadau hyn.

(**5**) OJ Rhif L311, 12.12.2000, t.37.
(**6**) OJ Rhif L160, 26.6.1999, t.48.

**Rhoi cymorth gwladol**

**3.** Yn ddarostyngedig i Reoliad 4 gall y Cynulliad Cenedlaethol roi cymorth gwladol mewn cysylltiad â chyflenwi cynhyrchion llaeth cymwys i ddisgyblion sy'n derbyn addysg gynradd sy'n mynychu sefydliadau addysgol cymwys.

**Amodau a chyfyngiadau sy'n gymwys ar gyfer rhoi cymorth gwladol**

**4.**—(1) Rhaid i gymorth gwladol o dan Reoliad 3 gael ei roi yn ddarostyngedig i'r amodau a'r cyfyngiadau a bennir ym mharagraff (2).

(2) Dyma'r amodau a'r cyfyngiadau y cyfeirir atynt ym mharagraff (1) —

(a) bod y ceiswyr wedi'u cofrestru neu wedi'u cymeradwyo gan y Bwrdd at ddibenion gwneud cais am gymorth Cymunedol;

(b) bod y Bwrdd yn cael ei fodloni bod ceisydd a sefydliad addysgol cymwys (os yw'n wahanol) yn cydymffurfio, a'u bod wedi cydymffurfio â'r rheolau Cymunedol ac unrhyw rwymedigaethau neu ofynion eraill a all fod wedi'u hysbysu iddynt gan y Bwrdd mewn cysylltiad â'u cyfranogiad yng nghynllun cymorthdaliadau'r Gymuned Ewropeaidd;

(c) mai 0.25 litr o laeth neu o'r hyn sy'n gyfwerth â llaeth yn ôl fel y digwydd am bob disgybl sydd ar gofrestr yr ysgol am bob diwrnod ysgol fydd y swm mwyaf o gynhyrchion llaeth cymwys y gall cymorth gwladol gael ei roi ar ei gyfer yn achos unrhyw sefydliad addysgol cymwys;

(ch) y cyfyngir y cymorth gwladol, yn ddarostyngedig i Reoliad 5 —

(i) yn achos cyflenwi llaeth cyflawn, i swm sy'n cynrychioli'r gwerth sterling sy'n gyfwerth â 6.2 ewro i bob 100 kilogram, neu

(ii) yn achos cyflenwi cynhyrchion llaeth cymwys heblaw llaeth cyflawn, i swm sydd i'w bennu o dro i dro gan y Cynulliad Cenedlaethol a'i hysbysu mewn ysgrifen i geiswyr

**Cymorth gwladol ychwanegol ar gyfer disgyblion cymwys**

**5.** Pan fydd cymorth gwladol yn cael ei roi mewn cysylltiad â chyflenwi cynnyrch llaeth cymwys sydd naill ai â chyflas neu hebddo, yn llaeth cyflawn neu'n laeth hanner sgim i ddisgyblion cymwys, gall y swm a roddir fod yn swm digonol i dalu'r costau gweddilliol a fuasai fel arall yn cael eu talu gan y disgyblion neu eu rhieni neu eu gwarcheidwaid mewn perthynas â'r cyflenwi hwnnw.

**Talu cymorth gwladol**

**6.** Rhaid i gymorth gwladol a roddir gan y Cynulliad Cenedlaethol yn unol â Rheoliad 3 gael ei dalu i geiswyr gan y Bwrdd yn gweithredu fel asiant i'r Cynulliad Cenedlaethol.

**Dal cymorth gwladol yn ôl a'i adennill**

**7.** Caiff y Bwrdd ddal yn ôl neu adennill oddi ar unrhyw geisydd y cyfan neu unrhyw ran o unrhyw gymorth gwladol a roddwyd o dan y Rheoliadau hyn os yw yn fodlon nad yw'r ceisydd neu sefydliad addysgol cymwys y mae ceisydd wedi gwneud cais mewn perthynas ag ef yn cydymffurfio neu nad yw wedi cydymffurfio ag unrhyw un o'r amodau a'r cyfyngiadau a bennir yn rheoliad 4(2).

**Y gyfradd gyfnewid gymwysadwy**

**8.**—(1) At ddibenion cyfrifo cymorth gwladol mewn sterling, rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol benderfynu'r gyfradd gyfnewid rhwng sterling a'r ewro sydd i'w chymhwyso at gyfrifiad o'r fath ac, yn ddarostyngedig i baragraff (2) caiff ei diwygio o dro i dro.

(2) Cyn unrhyw ddiwygiad arfaethedig ar y gyfradd gyfnewid rhwng sterling a'r ewro yn unol â pharagraff (1), rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol roi o leiaf 14 diwrnod o hysbysiad ysgrifenedig i geiswyr am y gyfradd ddiwygiedig sydd i'w chymhwyso.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**7**).

*D. Elis Thomas*
30 Ionawr 2001 Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**7**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n dod i rym ar 1 Chwefror 2001, yn pennu mesurau gweithredu mewn perthynas ag Erthygl 14(2) o Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 1255 / 1999 ar gyd-drefnu'r farchnad mewn llaeth a chynhyrchion llaeth (OJ Rhif L160, 26.6.1999, t.48).

Mae'r Rheoliadau yn darparu y gall y Cynulliad Cenedlaethol dalu cymorth gwladol (sy'n cydategu cymorth y Gymuned Ewropeaidd) mewn cysylltiad â chyflenwi llaeth a chynhyrchion llaeth penodol i blant sy'n derbyn addysg gynradd.

Mae'r Rheoliadau yn darparu y gall y Cynulliad Cenedlaethol roi cymorth gwladol mewn cysylltiad â chyflenwi uchafswm o 0.25 litr o laeth (neu o'r hyn sy'n gyfwerth â llaeth yn achos cynhyrchion llaeth penodol), fesul plentyn fesul diwrnod ysgol.

Y plant sy'n elwa ar gymorth gwladol o dan y Rheoliadau hyn yw'r rhai sy'n mynychu sefydliad sy'n darparu addysg gynradd ac sydd wedi'i gofrestru gyda'r Bwrdd Ymyrraeth Cynhyrchion Amaethyddol at ddibenion cynllun y Gymuned Ewropeaidd ar gyfer cyflenwi cynhyrchion llaeth cymorthdaledig.

Mae'r Rheoliadau yn darparu bod rhaid i raddfa'r cymorth gwladol a roddir gan y Cynulliad Cenedlaethol gael ei gyfyngu —

(a) yn achos cyflenwi llaeth cyflawn, i swm sy'n cynrychioli'r gwerth sterling sy'n gyfwerth â 6.2 ewro i bob 100 kilogram; neu

(b) yn achos cyflenwi yr holl gynhyrchion llaeth eraill sy'n gymwys, i swm sydd i'w benderfynu gan y Cynulliad Cenedlaethol a'i hysbysu yn ysgrifenedig i geiswyr.

Er hynny, os oes cymorth gwladol yn cael ei roi mewn cysylltiad â chyflenwi llaeth cyflawn neu laeth hanner sgim, â chyflas neu heb gyflas, i ddisgyblion cynradd heblaw'r rhai sy'n derbyn addysg feithrin neu'r rhai yng nghyfnod allweddol 2, mae'r Rheoliadau'n darparu y gall cyfanswm y cymorth hwnnw fod yn swm sy'n ddigonol er mwyn talu unrhyw gost a fuasai fel arall yn gorfod cael ei thalu gan y disgyblion hynny neu eu rhieni neu eu gwarcheidwaid o dan amgylchiadau lle nad yw cymorth y Gymuned Ewropeaidd yn talu'n llawn am gost cyflenwi'r cynhyrchion hynny.

Mae'r Rheoliadau'n darparu ar gyfer talu cymorth gwladol i geiswyr gan y Bwrdd Ymyrraeth Cynhyrchion Amaethyddol fel asiant i'r Cynulliad Cenedlaethol (Rheoliad 6) ac yn darparu hefyd ar gyfer dal yn ôl ac adennill cymorth o dan amgylchiadau penodol (Rheoliad 7).

Mae'r Rheoliadau hefyd yn darparu bod y gyfradd gyfnewid gymwys rhwng yr euro a sterling sydd i'w defnyddio wrth gyfrifo cymorth gwladol i gael ei phennu o dro i dro gan y Cynulliad Cenedlaethol a'i hysbysu mewn ysgrifen i'r ceiswyr (Rheoliad 8).